

Pennod 7

Cytundebau cyfaddawd

- 228 Mae cytundeb cyfaddawd (y cyfeirir ato hefyd fel cytundeb setliad²) yn gytundeb ysgrifenedig rhwng cyflogwr a chyflogai lle bydd y cyflogai yn rhoi'r gorau i honiadau penodol a allai fod ganddo yn erbyn y cyflogwr. Yn gyfnewid am roi'r gorau i'r honiadau penodol, bydd y cyflogai yn cael setliad ariannol.
- 229 Yn nodweddiadol, mae cytundebau cyfaddawd yn cynnwys darpariaethau megis manylion llawn y taliadau y bydd y cyflogai yn eu cael, manylion rhwymedigaethau'r cyflogwr a'r cyflogai a manylion yr honiadau posibl y mae'r cyflogai yn cytuno i roi'r gorau iddynt o ganlyniad i lofnodi'r cytundeb.
- 230 Mae SAC yn cydnabod y gall cytundebau cyfaddawd fod yn ffordd effeithiol o ddatrys anghydfodau cyflogaeth ac osgoi achosion mewn tribiwnlys cyflogaeth. Cânt eu defnyddio yn fwyaf cyffredin fel ffordd o ddod â chyflogaeth i ben mewn ffordd sydd o fudd i'r cyflogwr ac i'r cyflogai.
- 231 Dim ond o dan amgylchiadau priodol y bydd SAC yn defnyddio cytundebau cyfaddawd (a nodir isod), a bydd yn anelu at fod yn deg a chyson wrth ddefnyddio cytundebau cyfaddawd.
- 232 Caiff trafodion diswyddo eu datgelu yng nghyfrifon SAC, ac felly maent ar gael i'r cyhoedd a gwasanaethau archwilio graffu arnynt. Fodd bynnag, bydd SAC yn anelu at sicrhau bod unrhyw ddatgeliadau yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

Pryd y byddai'n briodol defnyddio cytundeb cyfaddawd?

- 233 O dan rai amgylchiadau penodol, er enghraifft, yn dilyn ad-drefnu rheolwyr, gall fod yn briodol rhoi cytundeb cyfaddawd ar waith gyda chyflogai fel ffordd o ddatrys sefyllfa lle y bu effaith andwyol o ryw fath ar y gydberthynas rhwng y cyflogwr a'r cyflogai.
- 234 Os bydd sefyllfa yn y gweithle yn tanseilio SAC mewn rhyw ffordd ac na ellir ei datrys drwy system fewnol fwy priodol, gellir ystyried cytundeb cyfaddawd fel ffordd ddefnyddiol o ddatrys y sefyllfa.
- 235 O dan bob amgylchiad, bydd angen llunio achos busnes sy'n ystyried p'un a yw cytundeb cyfaddawd o fudd i SAC, a ph'un a fyddai'n briodol ac yn darparu gwerth da am arian.

² Yn arbennig o dan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

Pryd na fyddai'n briodol defnyddio cytundeb cyfaddawd?

- 236 Ni ddylid defnyddio cytundebau cyfaddawd yn lle camau disgyblu, lle y byddai camau o'r fath yn fwy priodol.
- 237 Ni ddylid defnyddio cytundebau cyfaddawd fel ffordd o ddatrys perfformiad gwael. Dylid defnyddio system arfarnu perfformiad SAC, a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig, i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad gwael.
- 238 Ni ddylid defnyddio cytundebau cyfaddawd o dan unrhyw amgylchiadau lle mae dull mwy priodol o ddatrys y sefyllfa ar gael, a rhaid cymharu goblygiadau ariannol rhoi cytundeb cyfaddawd ar waith ag unrhyw ddulliau eraill posibl o ddatrys y sefyllfa.

Darpariaethau amhriodol mewn cytundeb cyfaddawd

- 239 Nid yw SAC o blaid defnyddio 'cymalau cau ceg' amhriodol mewn cytundebau cyfaddawd ac ni fydd unrhyw gytundebau cyfaddawd a roddir ar waith yn defnyddio cymalau o'r fath. Mae 'cymal cau ceg' yn gymal sy'n atal cyflogai rhag codi materion sy'n ymwneud â'i gyflogaeth sydd o fudd i'r cyhoedd, neu'n ceisio ei atal rhag gwneud hynny.
- 240 Er y bydd SAC yn osgoi defnyddio 'cymalau cau ceg' o'r fath yn ei chytundebau cyfaddawd, weithiau bydd angen iddi gynnwys rhai darpariaethau cyfrinachedd penodol safonol er mwyn diogelu buddiannau dilys SAC.
Er enghraifft, mae'n bosibl y gofynnir i'r cyflogai beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol y mae'n ymwybodol ohoni o ganlyniad i'w gyflogaeth. Ond dylid nodi bod unrhyw ddarpariaethau cyfrinachedd a gynhwysir mewn cytundeb cyfaddawd sy'n anelu at atal cyflogai rhag gallu gwneud datgeliad 'chwythu'r chwiban' gwarchoddedig o dan Ddeddf Datgelu Er Budd y Cyhoedd 1998 yn ddi-rym. (Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod Deddf 1998 yn gwneud pob darpariaeth gyfrinachedd yn ddi-rym. Bydd darpariaethau cyfrinachedd cyfreithlon, megis y rheini sy'n diogelu gwybodaeth a geir yn ystod archwiliad, yn weithredol o hyd).
- 241 Mae cytundebau cyfaddawd yn aml yn cynnwys geirda y cytunwyd arno gan y cyflogwr, a ddarperir i unrhyw ddarpar gyflogwyr yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi bod SAC o'r farn ei bod yn annerbyniol y dylai cyflogwr yn y sector cyhoeddus lunio cytundeb cyfrinachedd sy'n ei atal rhag datgelu pryderon perthnasol i gyflogwr arall yn y sector cyhoeddus. Mae hyn oherwydd nad yw galluogi un cyflogwr yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio darpariaethau cyfrinachedd er mwyn gallu trosglwyddo problemau AD i gyflogwr arall yn cynrychioli gwerth da am arian trethdalwyr.

Gweithdrefn ar gyfer rhoi cytundebau cyfaddawd ar waith

- 242 Dim ond ar ôl llunio achos busnes sy'n nodi'r rhesymeg dros ddefnyddio cytundeb cyfaddawd ac sy'n dadansoddi'r opsiynau eraill sydd ar gael y bydd SAC yn ceisio rhoi cytundeb cyfaddawd ar waith. Fel egwyddor arweiniol, dylid sicrhau bod defnyddio cytundeb cyfaddawd yn cynrychioli gwerth da am arian cyhoeddus.
- 243 Bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn craffu ar unrhyw gytundebau cyfaddawd arfaethedig, a chaiff barn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth o ran p'un ai rhoi'r cytundeb cyfaddawd ar waith yw'r dull gweithredu mwyaf priodol ei hystyried cyn gwneud penderfyniad i wneud hynny.
- 244 Cyn llofnodi cytundeb cyfaddawd, rhaid i gyflogai gael cyngor cyfreithiol annibynnol. Bydd SAC yn helpu cyflogeion i gael cyngor o'r fath, ac yn talu'r ffioedd rhesymol (y cytunir arnynt ymlaen llaw) am gyngor o'r fath. Os nad yw'r cyflogai yn fodlon â'r cytundeb cyfaddawd arfaethedig, nid oes unrhyw rwymedigaeth arno i'w lofnodi.